Diweddariad ar arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion

Medi 2006

Estyn
Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygiadau.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	**Tudalen**

Cyflwyniad **1**

Adroddiad Estyn 'Sefydlu Datganiad Sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru' **2**

Arweiniad Diwygiedig 2

Sut ydym yn arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang? **3**

Cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â safonau mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a darpariaeth ar eu cyfer **4**

1 Polisïau ac arferion ysgolion sy'n hyrwyddo ac yn gweithredu ADCDF 4

2 Gweithredu gofynion statudol mewn perthynas ag ADCDF 4

3 Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr o ran datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang 4

4 Dysgwyr yn cymhwyso eu dysgu 5

5 Addysgu ac adnoddau 5

6 Prosiectau, gwobrau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n galluogi ac yn hyrwyddo ADCDF 5

Sut ydym yn adrodd ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang? **7**

Y diweddaraf ar arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion

Beth mae hwn yn ymwneud ag ef?
Mae hwn yn rhoi arweiniad pellach ar arolygu ac adrodd ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Ar gyfer pwy y mae?
Pob arolygydd ysgolion

Pryd dylid cyflwyno'r arweiniad?
Ar unwaith

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2006

Cyflwyniad

Rhoddodd Materion Arolygu 2 ym mis Ionawr 2005 arweiniad i arolygwyr ynghylch sut i arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF) mewn ysgolion. Ym mis Medi 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddogfen ymgynghori ar strategaeth Cymru gyfan ar gyfer ADCDF. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd cynllun gweithredu ADCDF ym mis Medi 2006.

Adroddiad Estyn 'Sefydlu Datganiad Sefyllfa ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng Nghymru'

Fel rhan o gyfraniad Estyn i gynllun gweithredu ADCDF, gwnaethom arolwg gwaelodlin o ADCDF mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan www.estyn.gov.uk. Rydym yn gofyn i bob arolygydd ddarllen y ddogfen hon, yn enwedig y prif ganfyddiadau.

Wrth wneud y gwaith ar gyfer yr arolwg hwn, dadansoddwyd nifer o adroddiadau arolygu a nodwyd y sefyllfa ganlynol:

- mae cyfeiriadau at ADCDF yn fwy amlwg mewn adroddiadau arolygu ysgolion cynradd nag mewn adroddiadau ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig;
- mae llawer mwy o gyfeiriadau at ddatblygu cynaliadwy na dinasyddiaeth fyd-eang;
- ni roddir llawer o sylw i werthoedd a/neu ymddygiad disgyblion;
- lle mae cyfranogiad disgyblion yn cael ei grybwyll, mae fel arfer yn ymwneud â chyfranogiad mewn cynlluniau ailgylchu; ac
- nid oes llawer ar rai o'r materion a godwyd yn yr awgrymiadau canlynol yn Materion Arolygu 2:
    - A oes gan ddisgyblion sy'n gwneud cyrsiau arholiad ddigon o gyfleoedd i ystyried materion DCDF?
    - A oes gan yr ysgol adnoddau digonol ar gyfer DCDF?
    - A yw'r staff wedi cael eu hyfforddi'n ddigon da i addysgu DCDF?
    - A yw'r polisi'n cael effaith fuddiol ar ymarfer?
    - A oes gan yr ysgol ddealltwriaeth dda o DCDF?

Yn benodol, lle mae ADCDF yn codi mewn adroddiadau arolygu, mae fel arfer yn canolbwyntio ar gyflwyno'r cwricwlwm (trwy ABCh a Daearyddiaeth), ailgylchu, a chyfranogiad mewn cynlluniau gwobrwyo.

Arweiniad diwygiedig

Mae'r adran isod yn disodli'r un yn Materion Arolygu 2. Mae ar yr un fformat â'r gwreiddiol ac mae'r testun newydd wedi ei danlinellu.

Sut rydym yn arolygu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang?

Ym mhob arolygiad, mae'n ofynnol i adrodd ar ADCDF yn unol â'r gofynion adrodd ychwanegol ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3.

Dylech ddod o hyd i dystiolaeth o ADCDF yn y blynyddoedd cynnar, pob cyfnod allweddol ac yn y chweched dosbarth. Ym mhob math o arolygiad, bydd gennych lawer o gyfleoedd i gael tystiolaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ADCDF a pha mor dda y mae'r ysgol yn ei hyrwyddo.

Ym mhob math o arolygiad, dylech ddisgwyl gweld rhywfaint o waith ar hyrwyddo ADCDF wrth arolygu ABCh. Mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn nodi'r cyfleoedd i addysgu ADCDF o dan yr **agwedd amgylcheddol** ac o dan yr **agwedd gymunedol,** lle mae disgyblion yn cael eu hannog i fod yn 'ddinasyddion gweithredol mewn cyd-destunau lleol a byd-eang'. Yn ogystal, mae gwaith mewn perthynas â'r **agweddau galwedigaethol, cymdeithasol a moesol** yn darparu mwy o gyfleoedd. Dylai gweithgareddau i hyrwyddo ADCDF wneud cyfraniad sylweddol hefyd i ddatblygiad yr **ymagweddau a'r gwerthoedd** a restrir yn y cydrannau allweddol yn y Fframwaith.

Wrth arolygu **daearyddiaeth**, mae gofynion penodol i adrodd ar ddatblygu cynaliadwy, ymwybyddiaeth o'r byd ehangach trwy astudio lleoliadau mewn mannau eraill o'r byd a materion byd-eang. Dylech asesu a yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion hyn ai peidio.

Yn ogystal â'r cyfeiriadau penodol at ADCDF yn y Fframwaith ABCh ac mewn daearyddiaeth, gall nifer o bynciau eraill wneud cyfraniadau, yn enwedig gwyddoniaeth a hanes, ond hefyd celf, dylunio a thechnoleg, addysg grefyddol, iaith, cerdd, ieithoedd tramor modern, ac, mewn ysgolion uwchradd, astudiaethau busnes, pynciau galwedigaethol ac economeg.

Yn ogystal ag arolygu dealltwriaeth disgyblion o DCDF, bydd angen i chi arfarnu'r graddau y mae'r ysgol yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy ac yn cyfrannu at ddinasyddiaeth fyd-eang. Gellir gofyn i'r ysgol a oes ganddi unrhyw bolisïau ac amcanion ar feysydd fel y defnydd o ynni, amrywiaeth ddiwylliannol, ailgylchu, datrys gwrthdaro, lleihau gwastraff, datblygu dealltwriaeth fyd-eang, cefnogi ffyrdd iach o fyw a chyfranogiad dysgwyr yn y broses ddysgu a threfniadaeth yr ysgol. Bydd effeithiolrwydd gwaith yr ysgol yn y maes hwn yn amlwg yn y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg o ddydd i ddydd. Efallai y bydd rhai ysgolion wedi cael gwobr am eu gwaith yn ymwneud â datblygu cynaliadwy neu ddinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft, gwobr Eco-ysgolion.

Cwestiynau i'w gofyn mewn perthynas â safonau mewn addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, a darpariaeth ar eu cyfer

Wrth lunio barnau ar safonau mewn perthynas ag ADCDF, bydd angen i arolygwyr ystyried argaeledd tystiolaeth mewn perthynas â'r cwestiynau canlynol:

1 Polisïau ac arferion ysgolion sy'n hyrwyddo ac yn gweithredu ADCDF

- Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth ADCDF?
- A oes gan yr ysgol bolisi ar faterion ADCDF ac a yw'r polisi yn cael effaith fuddiol ar arfer?
- A yw'r ysgol yn cefnogi ffyrdd iach o fyw yn effeithiol?
- A oedd yr ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy ac yn cyfrannu at ddinasyddiaeth fyd-eang yn ystod yr arolygiad, er enghraifft wrth ddefnyddio ynni, lleihau gwastraff, ailgylchu, annog cyfranogiad dysgwyr yn yr ysgol a'r gymuned (yn lleol ac yn fyd-eang), gan amlygu perthnasoedd lleol gyda'r byd ehangach, parchu a dysgu o amrywiaeth, a gweithredu hawliau a chyfrifoldebau cytûn?

2 Gweithredu gofynion statudol mewn perthynas ag ADCDF

- A yw'r gofynion statudol ar gyfer ADCDF mewn daearyddiaeth yn cael eu bodloni?
- A yw darpariaeth ABCh yn rhoi digon o sylw i ADCDF?
- A yw dysgwyr yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu ac ymestyn eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ADCDF mewn pynciau eraill?
- A yw dysgwyr sy'n gwneud cyrsiau arholiad yn cael digon o gyfleoedd i ystyried datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang?
- A yw dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ADCDF trwy waith a phrosiectau allgyrsiol?

3 Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr o ran datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

- A yw dysgwyr yn dangos lefel briodol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang?
- A yw dysgwyr yn datblygu'r gwerthoedd a'r medrau sy'n ganolog i ADCDF?

4 Dysgwyr yn cymhwyso eu dysgu

- A yw dysgwyr yn dangos eu gallu i gymhwyso meddwl yn feirniadol?
- A yw dysgwyr yn cyfranogi yn nhrefniadaeth yr ysgol a'r gymuned?

5 Addysgu ac adnoddau

- Pa mor dda y mae staff yn deall ADCDF?
- A yw'r staff wedi cael hyfforddiant digon da i ymgorffori ADCDF yn eu haddysgu?
- A oes gan yr ysgol adnoddau digonol ar gyfer ADCDF?

6 Prosiectau, gwobrau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n galluogi ac yn hyrwyddo ADCDF

- Os yw'r ysgol yn rhan neu wedi bod yn rhan o raglen neu brosiect ADCDF a gefnogir yn allanol (e.e. cynllun gwobrwyo neu brosiect datblygu cwricwlwm), beth fu'r effaith?

Yn yr atodiad yn ein hadroddiad gwaelodlin, cynigiwyd model fel man cychwyn i nodi nodweddion allweddol ADCDF fel y gall darparwyr ddatblygu eu gwaith mewn ADCDF. Ni wnaethom ei gynnig fel darn cyflawn o waith, ond fel gwaith ar y gweill. Caiff ei atgynhyrchu yma am y gallai helpu arolygwyr wrth arfarnu ADCDF.

lefel ⇨ agwedd ⇩	sylfaenol	yn datblygu	wedi ei ddatblygu	wedi ei ymgorffori
cynnwys y cwricwlwm	• Materion amgylcheddol yn cael blaenoriaeth dros DC neu DF • Sylw yn gyfyngedig yn bennaf i ofynion pwnc	• ADC neu ADF yn cael eu trin yn benodol mewn rhai pynciau • Cynllun gwobrwyo neu gysylltiad ysgol yn cyfrannu at rai agweddau ar y cwricwlwm • ADCDF yn cael ei ystyried yn rhywbeth sy'n ymwneud yn bennaf â materion amgylcheddol	• ADC a DF wedi eu cynllunio ar gyfer ystod o bynciau ac yn cael eu trin ynddynt • Cynlluniau gwobrwyo, mentrau, cysylltiadau ysgol yn cyfrannu at y cwricwlwm ysgol gyfan	• ADCDF wedi ei integreiddio ar draws y cwricwlwm ysgol gyfan • Datblygiad ADCDF-dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd perthnasol yn amlwg mewn cynlluniau • Canlyniadau ar gyfer dysgwyr yn cael eu monitro
Ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, medrau a gwerthoedd dysgwyr	• Yn gyfyngedig i rai meysydd pwnc • Dim dealltwriaeth neu ddealltwriaeth gyfyngedig o gysylltiadau lleol-byd-eang a DC a DFE	• gallu i gymhwyso dysgu DCDF ar draws pynciau ac mewn gweithgareddau allgyrsiol • Ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chysylltiadau lleol a byd-eang • Datblygu medrau a gwerthoedd cymdeithasol	• Gallu i gysylltu materion lleol â phryderon byd-eang ac i'r gwrthwyneb • Datblygiad clir o ddealltwriaeth o faterion DC a DF cyfoes • Medrau ymholi , dadansoddi beirniadol a chyfathrebu wedi eu datblygu'n glir mewn cyd-destun	• Dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau trwy gyflawni eu mentrau eu hunain
Ymddygiad dysgwyr	• Yn gyfyngedig yn bennaf i gyfranogiad rhai dysgwyr mewn ailgylchu a mentrau achlysurol fel digwyddiadau elusennol	• Datblygu cyfranogiad dysgwyr • Ar gyfer ADCDF mae'n bennaf yn ymwneud â sefyllfaoedd amgylcheddol a/neu ddigwyddiadau unigol	• Cyfranogiad dysgwyr, yn cynnwys gwneud penderfyniadau, yn ffurfio rhan barhaus o fywyd ysgol neu goleg, ee trwy gyngor yr ysgol neu gyngor myfyrwyr • Cymorth cyfoedion er enghraifft, datrys gwrthdaro/gwrth-fwlio	• Dysgwyr yn gwneud awgrymiadau rheolaidd o blaid ac flaengar mewn arferion DC a DF yr ysgol
Polisïau ac arferion sefydliadol	• ADCDF yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel 'menter arall' • Gall fod mentrau ailgylchu yn cael eu hyrwyddo	• Cyfranogiad mewn cynllun neu fenter yn nodweddiadol yn dibynnu ar un neu ddau aelod o staff • Rhywfaint o sylw penodol i arfer ynni cynaliadwy • Rhai o'r staff yn ymwybodol o ADCDF trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus	• Uwch reolwyr yn rhoi arweinyddiaeth ar ADCDF • Cynlluniau datblygu a pholisïau yn cyfeirio at ADCDF	• ADCDF yn ffurfio rhan greiddiol yr athroniaeth ac arfer sefydliadol, ac yn cael ei monitro, ei harfarnu a'i datblygu'n rheolaidd • Adnoddau a chyfrifoldebau ADCDFpenodol yn cael eu dyrannu mewn cyllidebau

Sut rydym yn adrodd ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang?

Dylai pob adroddiad arolygu gynnwys arfarniad o ADCDF yn yr adran ar Gwestiwn Allweddol 3 – Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? Mae'r 'gofynion adrodd' ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 yn nodi bod yn rhaid i chi adrodd ar ADCDF a dylid gwneud hyn mewn perthynas â'r arweiniad ym mhwynt bwled 3.11 ar yr ochr dde yn y llawlyfr arweiniad.